OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 No. 163

## Rheoliadau Gwasanaethau Lleoli Oedolion (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019

### RHAN 16

Gofynion eraill ar unigolion cyfrifol

**Cymorth ar gyfer staff sy’n codi pryderon**

**61.** Rhaid i’r unigolyn cyfrifol sicrhau y cydymffurfir â pholisi chwythu chwiban y darparwr gwasanaeth a bod y trefniadau i alluogi a chefnogi pobl sy’n gweithio yn y gwasanaeth i godi pryderon o’r fath yn cael eu gweithredu’n effeithiol.